

Tâl Salwch Statudol

Help pan fyddwch i ffwrdd
o'r gwaith oherwydd salwch

canolfan**byd**gwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau



Canllaw yn unig yw hwn ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ym mis Mehefin 2011.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Beth yw Tâl Salwch Statudol?	4
A allaf gael Tâl Salwch Statudol?	4
A allaf gael Tâl Salwch Statudol dramor?	5
Beth y dylwn ei wneud pan fyddaf yn sâl?	5
Sut y gallaf brofi fy mod yn sâl?	6
Beth os byddaf yn sâl am amser hir?	6
Faint o Dâl Salwch Statudol y gallaf ei gael?	7
Sut y caiff Tâl Salwch Statudol ei dalu? . .	7
Beth os wyf yn sâl ar ôl dychwelyd i'r gwaith?	7
Beth os bydd fy meddyg yn dweud y 'gallwn fod yn ffit i weithio'?	7
Beth os byddaf yn sâl am amser hir?	8
Beth os gallaf gael mathau eraill o dâl salwch?	8
Beth y dylwn ei wneud os na fydd fy nghyflogwr yn talu Tâl Salwch Statudol i mi?	9
Rhagor o wybodaeth	9

Beth yw Tâl Salwch Statudol?

Os na allwch weithio oherwydd eich bod yn sâl, efallai y bydd eich cyflogwr yn talu Tâl Salwch Statudol i chi.

Tâl Salwch Statudol yw'r lleiafswm y mae'n rhaid i gyflogwyr ei dalu yn ôl y gyfraith. Telir Tâl Salwch Statudol am y diwrnodau y byddech fel arfer yn eu gweithio - mae'n rhaid iddo fod yn un diwrnod mewn wythnos o leiaf.

A allaf gael Tâl Salwch Statudol?

Er mwyn cael Tâl Salwch Statudol mae'n rhaid eich bod:

- yn gyflogedig, ac
- wedi bod yn sâl am o leiaf bedwar diwrnod neu fwy yn olynol, a'ch bod yn cael enillion wythnosol cyfartalog o £102 neu fwy.

Hyd yn oed os mai eich diwrnod cyntaf yn eich swydd newydd ydyw, cyhyd â'ch bod wedi treulio rhywfaint o amser yn gweithio gallech gael Tâl Salwch Statudol o hyd. Ni allwch gael Tâl Salwch Statudol os ydych wedi bod yn cael rhai budd-daliadau eraill fel Lwfans Mamolaeth neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Os nad ydych yn siŵr a allwch gael Tâl Salwch Statudol, dylech ofyn i'r sawl rydych yn gweithio iddo.

A allaf gael Tâl Salwch Statudol dramor?

Mae'n bosibl y gallwch gael Tâl Salwch Statudol dramor os yw'ch cyflogwr yn gyfrifol am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1, neu y byddai yn gwneud pe byddai'ch enillion yn ddigon uchel, ar y diwrnod cyntaf y byddwch yn sâl.

Mae rhai rheolau'n gymwys os ydych yn gweithio ar y môr neu ar awyren. Cysylltwch â'ch cyflogwr i gael rhagor o wybodaeth.

Beth y dylwn ei wneud pan fyddaf yn sâl?

Pan fyddwch yn mynd yn sâl dylech ddweud wrth eich cyflogwr cyn gynted â phosibl. Efallai fod gan y sawl rydych yn gweithio iddo reolau ei hun o ran sut a phryd y dylech ddweud wrtho, ond ni all ofyn i chi wneud y canlynol:

- dweud wrtho yn bersonol
- dweud wrtho cyn y diwrnod cyntaf y byddwch yn sâl neu erbyn amser penodol
- dweud wrtho ar ffurflen neu dystysgrif feddygol, neu
- dweud wrtho fwy nag unwaith yr wythnos.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrtho cyn i chi fod yn absennol oherwydd salwch am saith diwrnod, neu gallai'r sawl rydych yn gweithio iddo wrthod talu Tâl Salwch Statudol i chi.

Gelwir datganiadau meddygol yn nodiadau ffitrwydd, nodiadau salwch neu'n dystysgrifau meddygol hefyd.

Sut y gallaf brofi fy mod yn sâl?

Hyd at saith diwrnod

Efallai y bydd yn rhaid i chi gwblhau ffurflen i'r sawl rydych yn gweithio iddo. Os nad oes ganddo un ei hun, gallwch gael ffurflen SC2 yn eich meddygfa neu ar-lein yn www.hmrc.gov.uk/forms/sc2.pdf

Mwy na saith diwrnod

Bydd y sawl rydych yn gweithio iddo yn dweud beth sydd angen i chi ei ddangos iddo i brofi eich bod yn sâl. Datganiad meddygol gan eich meddyg fydd hyn fel arfer. Nid oes rhaid i chi ddangos datganiad meddygol iddo cyn saith diwrnod.

Faint o Dâl Salwch Statudol y gallaf ei gael?

Os byddwch yn ennill £102 neu fwy yr wythnos, telir Tâl Salwch Statudol ar gyfradd safonol o £81.60 yr wythnos. Os nad yw hyn yn rhoi digon o arian i chi, gofynnwch i'r Ganolfan Byd Gwaith am fudd-daliadau eraill y gallech eu cael.

Sut y caiff Tâl Salwch Statudol ei dalu?

Caiff eich Tâl Salwch Statudol ei dalu yn yr un ffordd â'ch cyflog arferol.

Beth os wyf yn sâl ar ôl dychwelyd i'r gwaith?

Os byddwch i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch eto lai nag wyth wythnos ar ôl y tro diwethaf yr oeddech i ffwrdd yn sâl, gall gyfrif fel un cyfnod o salwch.

Beth os bydd fy meddyg yn dweud y 'gallwn fod yn ffit i weithio'?

Os bydd eich datganiad meddygol yn nodi y 'gallwch fod yn ffit i weithio', bydd cyngor y meddyg yn eich helpu chi a'ch cyflogwr i siarad am ba gymorth y bydd ei angen arnoch i'ch helpu i ddychwelyd i'r gwaith.

Os ydych chi a'ch cyflogwr wedi cytuno y byddwch yn dychwelyd i'r gwaith yn raddol neu'n gweithio oriau gwahanol ar ôl cyfnod o fod yn sâl, dylech gael:

- eich enillion arferol ar gyfer y diwrnodau a/neu yr oriau rydych yn eu gweithio, a
- Tâl Salwch Statudol ar gyfer y diwrnodau eraill y byddech wedi'u gweithio fel arfer.

Os na all eich cyflogwr eich cefnogi i ddychwelyd i'r gwaith, caiff y datganiad meddygol ei drin fel pe bai'n nodi 'nad ydych yn ffit i weithio'. Ni oes angen i chi ymweld â'ch meddyg i gael datganiad meddygol newydd.

Beth os byddaf yn sâl am amser hir?

Gallwch gael Tâl Salwch Statudol am hyd at 28 wythnos. Os byddwch yn rhy sâl i weithio ar ôl yr amser hwn, dylech gael ffurflen (SSP1W) gan eich cyflogwr i helpu i gefnogi cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Beth os gallaf gael mathau eraill o dâl salwch?

Os byddwch yn gweithio i fwy nag un cyflogwr, ac yn ennill £102 neu fwy yr wythnos gan bob un ohonynt, mae'n bosibl y gallech gael mwy nag un gyfres o Dâl Salwch Statudol.

Os bydd y sawl rydych yn gweithio iddo yn talu tâl salwch i chi a'i fod yn fwy na Thâl Salwch Statudol, nid oes rhaid iddo dalu Tâl Salwch Statudol i chi hefyd.

Beth y dylwn ei wneud os na fydd fy nghyflogwr yn talu Tâl Salwch Statudol i mi?

Os na all eich cyflogwr dalu Tâl Salwch Statudol i chi, mae'n rhaid iddo roi ffurflen (SSP1W) i chi a fydd yn nodi'r rheswm pam na all wneud unrhyw daliadau i chi. Pan gewch y ffurflen hon cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i ofyn am wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Dâl Salwch Statudol, ewch i www.direct.gov.uk/cy

Neu ffoniwch linell gymorth Cyllid a Thollau EM.

Ffôn 0845 302 1479

Ffôn testun 0845 915 3269

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 5pm.

I gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau a chymorth ariannol, ewch i www.direct.gov.uk/budd-daliadau

Neu cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith (mae ein manylion yn y llyfr ffôn).

Rhagor o wybodaeth am gyfraddau budd-daliadau

Caiff cyfraddau budd-daliadau eu hadolygu bob blwyddyn, ac fe'i cynyddir fel arfer ym mis Ebrill ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad ar gefn y daflen hon.

Ni ddylai galwadau i rifau **0845** o linellau tir BT gostio mwy nac 8c y funud a 13c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Lle y rhoddir rhifau ffonau testun, ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir mae'r rhain.

Os nad oes gennych ffôn testun, efallai bod gan rai llyfrgelloedd neu Ganolfannau Cyngor ar Bopeth un.

Ni all ffonau testun dderbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bob math o bynciau. I gael gwybod mwy am ba fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w cael, ewch i www.direct.gov.uk/cynghoryddbudd-daliadau

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84947-638-6

DWP1020W | f4.2 (Mehafin 2011)